Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 25 Gorffennaf 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, S. Edwards, G. Parry, E. Parry, G. C. Jones, E. Parry, D. Jones, Mervyn Jones, H. Huws, Meirion Jones,

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	A. Williams		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Gorffennaf 2017**		
3.1	Cytunwyd i awdurdodi taliadau ym Mis Awst gan na fydd cyfarfod swyddogol o'r Cyngor Bro		
3.2	A. Mummery yn cadarnhau ei fod wedi derbyn £40 o arian o'r swyddfa bost tuag at Gronfa Neuadd Goffa		
3.3	Nodwyd bod angen cadarnhad swyddogol fod Anwen Le Cras wedi cael cynnig a derbyn y swydd gofalwr y Neuadd Goffa cyn ei bod yn cael taliad. Cytunwyd mai tal cydnabyddiaeth bydd taliad Gorffennaf, ac fydd angen un am cyfnod Ionawr i Mehefin	**D. Owen**	
	Meirion Jones yn cynnig, A. Jones yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	G. C. Jones yn nodi fod cyflwyniad a dogfennau wedi gyrru i Gynghorau Cymuned cyn cyfarfod Fforwm Cyswllt ac nid yw'n derbyn yn uniongyrchol. Nodwyd fod wedi awgrymu yn y cyfarfod bod Clercod yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod arferiadau da ac yn y blaen. Nodwyd G. C. Jones bod Dafydd Idriswyn wedi ethol yn Gadeirydd Unllais Môn. Nodwyd hefyd fod Huw Jones o'r Cyngor Sir am ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod ailgylchu a materion eraill.		
4.2	Nodwyd bod cwmni o Essex sydd i weld yn torri gwrychoedd ar ochr lonydd. Cytunwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir i fynegi siom nad oes cwmni lleol wedi cael y gwaith.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 37 Mehefin 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	A. Mummery yn nodi ei fod yn disgwyl cadarnhad be fydd y drefn newydd gyda llywodraethwyr yr Ysgol cyn bydd gallu penodi aelod ar ran Cyngor Llanfairpwll a Phenmynydd a Star	**A. M**	
6.2	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd	**A. M**	
6.3	Llwybr beicio - H. Huws yn nodi fod dal heb ei wneud. Clerc i ddilyn fyny	**D. Owen**	**26/09/17**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Cytunwyd i ofyn i DEWIS am gyngor ar wasanaeth o baratoi adroddiad a dogfen manyleb ar gyfer gwaith ar y cloc i liwio cais am grant.	**D. Owen**	**26/09/17**
6.5	Tagfeydd traffig Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc i ddilyn fyny hefo Cyngor Sir am ffordd Penmynydd/Caergybi. Cytunwyd i'r Clerc yrru cwyn at yr Heddlu am geir yn gôr yrru ar ffordd Penmynydd	**D. Owen**	**26/09/17**
6.6	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery am holi grŵp Amlwch am arweiniant, hefyd yn nodi ei fod am drafod ymhellach gyda Ffrindiau'r Parc a'r Gors	**A. M**	
6.7	Grantiau - A. Jones wedi cyflwyno cais grant i'r loteri am laptops ychwanegol i'r Neuadd Goffa. Cytunwyd i symud ymlaen gyda chais grant Horizon ar gyfer gwelliannau i'r Neuadd Goffa wedi. G. Parry yn cadarnhau ei fod wedi bod yn llwyddiannus gyda chais grant i'r Clwb Bowlio gyda Horizon.	**Mervyn Jones**	
6.8	Llanast yn y Gors - Steve wedi cael pris o £35 y bin i roi yn y Gors. Clerc i ddilyn fyny hefo Biffa am bris am wasanaeth clirio sbwriel yn rheolaidd	**D. Owen**	**26/09/17**
6.9	Fynwent - Clerc i yrru copi o'r cytundeb bori ymlaen i bawb	**D. Owen**	**26/09/17**
6.10	Meinciau'r Pentref - Nodwyd bod dwy mewn cyflwr gwael, a bod pob un angen eu rhwbio lawr ac ail baentio. Cytunwyd i bwyllgor Amgylchedd ac Eiddo i weithredu	**Pwyllgor A&E**	

6.11	Clwb Snwcer - Nodwyd bod angen i'r clerc gysylltu gyda Chlwb Snwcer i drefnu cyfarfod cyn gynted â phosib.	**D. Owen**	
6.12	Croesawu Eisteddfod - Cytunwyd i E. Parry weithredu i archebu paent a phaentio lle bo angen a S. Edwards am archebu baneri	**E. Parry a S. Edwards**	**26/09/17**
7.0	**Pwyllgor Safonau - Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau**		
7.1	Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiad		
8.0	**Ymgynghoriad Llyfrgelloedd**		
8.1	Meirion Jones syn annog pobl i ymateb os ydynt yn defnyddio llyfrgell Porthaethwy . Nodwyd Meirion fod y gwasanaeth yn un bwysig ond mae angen ailstrwythuro gwasanaeth a dyma yw rheswm yr ymgynghoriad.		
9.0	**Cynlluniau'r Drydedd Bont**		
9.1	Hana yn gofyn i'r cynllunwyr i ddod i gyfarfod a'r Cyngor Bro. Nodwyd fod y cynlluniau yn effeithio'r pentref a phentrefwyr. Cytunwyd i Hana ddrafftio ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor Bro.	**H. Huws**	
10.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
10.1	31C10K - Cais llawn ar gyfer newidiadau ac estyniadau yn Tyn Lon Garage, Llanfairpwll - Dim sylw		
10.2	31C287C -Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Afallon, Lon Pant, Llanfairpwll - Dim sylw		
10.3	31C93J - Cais llawn ar gyfer creu balconi newydd yn Tan Twr, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll - Dim sylw		
10.4	31C441 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Hafod Glyd 46 Y Wern, Llanfairpwll - Dim sylw		
11.0	**Gohebiaeth**		
11.1	Cylchgrawn Clerks & Council's Direct - Derbyn y wybodaeth		
11.2	Horizon - Wylfa Newydd - Ymgynghoriad Cam 3 - Hysbysiad Adran 48; Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009, Rheoliad 11 - Derbyn y wybodaeth		
11.3	Cyngor Sir - Gorchymyn CSYM (gwahardd traffig trwodd dros dro) Ffordd Penmynydd 2017 - Derbyn y wybodaeth		
11.4	Cyngor Sir - Gorchymyn CSYM (gwahardd traffig trwodd dros dro) Lon Refail 2017 - Derbyn y wybodaeth		
11.5	Eisteddfod Genedlaethol Môn - Llythyr Diolch - Derbyn y wybodaeth		
12.0	**Materion Brys**		
12.1	J. Roberts yn nodi fod y cofnodion cyfarfodydd sydd ar yr hysbysfwrdd yn y Maes Parcio yn hen ac angen ei ddiweddaru.	**D. Owen**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Medi 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad